# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG, 09 HYDREF, 2013

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths, (is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Jason Humphreys, (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Peter L. Williams, (Sefydliad y Bâd Achub, Criccieth), David McLean, (Buddiannau Perchnogion Tir) a Robert Owen, (Buddiannau Masnachol).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B. Jones, (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), David O'Neill (Harbwr Feistr), Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu), John Wyn Jones, Bryn P. Jones, Malcolm Humphreys, (Swyddogion Uned Morwrol a Pharciau Gwledig)

## 1. CADEIRYDD

**Penderfynwyd ail-ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14**

## 2. IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14.**

## 3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2012, fel rhai cywir.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cyfeiriwyd at yr ymholiad a wnaed parthed parcio ceir yr anabl ar draethau ac ar diroedd yr Adran Forwrol.

Rhoddwyd sylw penodol i'r posibilrwydd o ganiatáu i'r anabl barcio am ddim ar Draeth Morfa Bychan. Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y mater wedi cael ystyriaeth tua saith mlynedd yn ôl. Bryd hynny, penderfynwyd y byddai'n annheg i rai fanteisio ar gyfle i osgoi taliadau ac na ddylid caniatáu unrhyw ostyngiad.

Ychwanegodd mai ffi mynediad oedd hwn yn hytrach na thâl am barcio ac nid oedd yn rhagweld y byddai unrhyw newid yn cael ei gyflwyno yn 2014. Nododd mai £4 y dydd oedd y tâl ac ystyriai fod hyn yn rhesymol iawn.

Mynegwyd anfodlonrwydd gan rai aelodau a nodwyd bod rhai angen mynd i'r traeth am resymau meddygol.

Cyfeiriodd aelod at drefn a oedd yn bodoli yn y gorffennol pryd yr oedd trigolion lleol yn cael mynediad i'r traeth yn ddi-dâl. Awgrymodd y gellid ail-gyflwyno'r drefn yma neu o leiaf cyflwyno trefn fel bod peth o'r derbyniadau'n cael eu cyflwyno er budd y gymuned leol.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cyflwyno sylwadau yn y cyfarfod nesaf ar yr egwyddor o ganiatáu i'r anabl gael mynediad**

## 4. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

### a) <u>Côd Diogelwch Harbyrau</u>

i) Tywyswyd yr aelodau drwy gynnwys y Côd Diogelwch Morwrol gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned â'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.
Cadarnhawyd bod Cabinet y Cyngor wedi cytuno gyda trefniadau gweithredu ac atebolrwydd dyletswyddau rheoli Harbyrau Trefol Cyngor Gwynedd yn unol â'r Côd Diogelwch Morwrol, gan gynnwys ymgymryd â swyddogaethau 'Deilydd Dyletswydd.'
Ymhellach, penderfynodd y Cabinet fod cyfansoddiad safonol yn cael ei fabwysiadu gan y Pwyllgorau Harbwr Ymgynghorol presennol fel rhan o'r trefniadau newydd.

'Roedd yr aelodau wedi derbyn copi o'r Côd Diogelwch Morwrol ymlaen llaw, ac esboniwyd ei fod yn berthnasol i bob awdurdod harbwr yn y Deyrnas Gyfunol. Gyda'r Côd Diogelwch gosodir safon genedlaethol ar gyfer diogelwch morwrol porthladdoedd.

Cyfeiriwyd ymhellach at brif agweddau o'r Côd, sef:

- Atebolrwydd am Ddiogelwch Morwrol;
- Dogfennau;
- Pwyllgorau Harbwr.

O ran Atebolrwydd am Ddiogelwch Morwrol, cadarnhawyd y byddai Cabinet y Cyngor yn gweithredu fel 'Deilydd Dyletswydd' ar gyfer derbyn y cyfrifoldeb. Ar gyfer rheoli diogelwch effeithiol, rhaid adnabod 'Person Dynodedig' i ddarparu sicrhad annibynnol i'r 'Deilydd Cyfrifoldeb' fod y gyfundrefn rheoli diogelwch yn gweithredu'n effeithiol. Yn sgil hyn, bydd y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn flynyddol.

Cyfeiriwyd at gylch gorchwyl pwyllgorau harbwr, megis Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog, a thanlinellwyd pwysigrwydd eu cyfraniad a'r modd y byddai'r newidiadau'n anelu at gysoni trefniadau ar draws y Sir

ii) Yn ystod y drafodaeth ddilynol cyfeiriwyd at newidiadau posib i aelodaeth pwyllgorau harbwr a'r ffaith mai Cabinet y Cyngor fydd yn penodi'r aelodau yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodaeth bresennol y Pwyllgor a defnyddwyr yr harbwr.

Awgrymwyd y gellid cael newidiadau yn aelodaeth y Pwyllgor hwn, megis cael dau gynrychiolydd o'r Cyngor Tref, yn hytrach nag un fel y mae ar hyn o bryd.

Mewn ymateb, nodwyd bod angen hyblygrwydd ond eto bod angen cysondeb ar draws y Sir o ran maint y Pwyllgorau.

Yn ogystal, cyfeiriwyd at bwysigrwydd mewnbwn lleol a nododd aelod y dylid ateb anghenion harbwr unigol ac na ddylid chwyddo aelodaeth y Pwyllgor.

Nododd aelod y dylai'r Fforwm Ardal dderbyn gwybodaeth parthed y gweithgareddau ac y dylai cyswllt y fforymau fod yn gryfach.
Esboniodd yr Aelod Cabinet - Economi y byddai'n creu cyswllt rhwng y Pwyllgor hwn a'r Cabinet a byddai'r wybodaeth felly'n cael ei sianelu drwy'r Pwyllgor. Ni fyddai cyswllt ffurfiol gyda'r Fforwm Ardal, er hyn, ni fyddai dim yn rhwystro'r fforwm rhag derbyn unrhyw wybodaeth.

Fel rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Harbwr, nodir y bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ymgynghori hefo'r Pwyllgor ar unrhyw fater sydd, ym marn y Cabinet, yn debygol o effeithio'n sylweddol ar reolaeth, diogelwch neu ddatblygiad yr harbwr. Bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan y Pwyllgor ond ni fydd dan rwymedigaeth i weithredu yn unol â'r cyngor a roddir.
Nodwyd mai man cychwyn yw hyn ac y bydd yn cymryd amser i sefydlu patrwm newydd.

**b) Rheolau llestr/bad pŵer ym mhorthladdoedd ac ar arfordir Gwynedd**

i) Cyflwynwyd gwybodaeth parthed rheolau llestr/ bad pŵer ym mhorthladdoedd ac ar arfordir Gwynedd ynghyd â ffurflen Gofrestru Llestr - Tymor 2013/14

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod arweiniad yn cael ei roi ar gyfer rheoli cychod pŵer a badau dŵr personol. Ychwanegodd nad yw bad dŵr personol yn cael ei adnabod fel cwch Yn unol a Deddfwriaeth Llongau Masnach

O ran y sefyllfa yng nghyffiniau Porthmadog, nodwyd fod pob ymdrech yn cael ei wneud, gyda'r adnoddau sydd ar gael, i sicrhau fod defnyddwyr yn dilyn y rheolau. Esboniwyd fod trefn gofrestru gaeth yn bodoli a bod y staff hefo profiad a chymwysterau i ymdrin â'r gwaith.

Ychwanegwyd mai ychydig o gwynion sy'n cael eu derbyn a bod y digwyddiadau'n hynod brin o ystyried niferoedd y badau. Er hyn, derbyniwyd fod damweiniau'n digwydd a bod hyn yn hynod anffodus.

Cyfeiriwyd hefyd at gysylltiad busnesau lleol hefo'r badau ac y dylid ystyried hyn hefyd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol gwnaed y prif bwyntiau canlynol:

- Bod ymddygiad rhai o ddefnyddwyr badau pŵer a'r 'badau dwr personol yn afreolus a'u bod yn anwybyddu'r holl reolau;
- Bod rheoliadau cychod pwer yn cael ei anwybyddu gan lawer;
- Nad yw ymddygiad rhai o'r defnyddwyr yn cyd-fynd â'r rheolau neu is-ddeddfau;
- Dylid gwahardd gweithgaredd o'r fath o fannau poblogaidd, megis Carreg Samson;
- Nad ydy'r holl ddefnyddwyr yn torri'r rheolau a gellid mynd ati i hyfforddi a rhybuddio rhai os oes angen;
- Bod y rhan helaethaf o ddefnyddwyr badau dwr personol gyda'r offer priodol;
- Bod rhai problemau'n anochel ac y gellid cymharu'r sefyllfa hefo rhai sy'n gyrru ceir hyd y ffyrdd;

Mewn ymateb i'r sefyllfa nodwyd fod tymor yr haf eleni wedi bod yn eithriadol brysur a bod y traethau'n hynod bwysig o ran yr economi a mwynhad. Esboniwyd fod rhybuddion yn cael eu rhoi ar lafar i unrhyw un sy'n cael ei weld yn torri rheolau a bod ymhell dros gant wedi cael eu rhybuddio gan staff y Cyngor yn ystod yr haf.
Ychwanegwyd bod y prysurdeb yn deillio o faint arfordir Gwynedd a bod lle i ymfalchïo yn yr hyn sydd gan y Sir i'w gynnig.

Cytunwyd y dylid adolygu'r sefyllfa yn ystod y gaeaf gyda'r aelodau lleol a'r staff yn ystyried y sefyllfa fel y gellir cyflwyno adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.

**c) Cymhorthion Mordwyo**

i) Nodwyd bod llusernau ar y cyfan o'r 17 cymhorthion mordwyo yn harbwr Porthmadog gydol y flwyddyn.
Cafwyd bod y cymhorthion yn effeithiol yn dilyn ymchwiliad Tŷ'r Drindod. Fodd bynnag, bwriedir ymdrin â gwaith cynnal a chadw ar y bwi tramwy.

**ch) Cofrestru**

Nodwyd bod cynnydd yn nifer y badau dŵr personol a gofrestrwyd yn 2013 gyda 36 wedi eu cofrestru yn Harbwr Porthmadog, o'i gymharu â 25 yn 2012, a 129 wedi eu cofrestru ym Morfa Bychan, o'i gymharu â 85 yn 2012. 'Roedd hyn yn dod yn sgil y tywydd ffafriol.
Fodd bynnag, gwelwyd tuedd cyffredinol i'r niferoedd ostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chredir fod hyn yn adlewyrchiad o'r sefyllfa economaidd.

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Clwb Hwylio ynglŷn â niferoedd pontŵns yn harbwr Porthmadog. Pwysleisiwyd fod angen cryn ymchwil a bod angen ystyried costau uchel.

O ran nifer y trigolion o Wynedd sy'n angori'n lleol, galwyd am ychwaneg o hysbysebu effeithiol. Cadarnhawyd bod gwaith wedi ei wneud ac yr oedd swyddogion yn ffyddiog y gwelir cynnydd.

**d) Cyllid**

Arweiniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad cyllidol gan nodi fod £8,000 o wariant ar ddau beiriant i gwch yr harbwr yn enghraifft o fuddsoddiad sylweddol.

Mewn perthynas ag adroddiad terfynol Harbwr Porthmadog 2012/13, cyfeiriwyd at arbediad o £11,000 a wnaed o ran costau gweithwyr. Ymhellach gwelwyd arbediad o £17,000 yng nghyswllt cynnal a chadw adeiladau.
'Roedd cyfanswm arbedion felly yn agos i £30,000 a thynnwyd sylw fod hyn yn tanlinellu effeithlonrwydd oherwydd bod y gyllideb wedi gostwng.

'Roedd y sefyllfa felly yn effeithiol ym Mhorthmadog, ond rhybuddiodd y Swyddog fod rhaid anelu at welliant cyson oherwydd bod ffiniau ariannol hynod gaeth yn bodoli.

Diolchwyd i'r staff am eu hymroddiad a chyfeiriwyd hefyd at waith holl bwysig Gwasanaeth y Bâd Achub.

**Cyfarfod Nesaf**

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 5 Mawrth, 2014.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30pm a daeth i ben am 7.25pm